# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 7 Rhagfyr 2006
### Amser: 2.00pm
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol:**

William Graham, AC y Blaid Geidwadol (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janice Gregory, AC Llafur
Jane Hutt, AC Llafur
John Marek, AC Cymru Ymlaen
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (hefyd yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc i'r Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc i'r Cynulliad a Chlerc i Bwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r Cynulliad
Brian Davidge, Pennaeth y Gangen TGCh
Adrian Crompton, Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Phwyllgorau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad
Nerys Evans, Rheoli Cyfleusterau
Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

**Hefyd yn bresennol:**

David Melding, AC (AoB - Is Grwp Arlwyo)
Frances Osborne (Eitem 2.3 ar yr agenda)
Gordon Brown (Eitem 3.2 ar yr agenda

**Yn arsyllu:**

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol y Llywydd

| | |
|---|---|
| | **Sylwadau Agoriadol** |
| | |
| | Mynegodd y Cadeirydd ddiolch a dymuniadau gorau'r Pwyllgor i Paul Silk, Clerc y Cynulliad, oedd yn gadael ar 18 Rhagfyr 2006.<br><br>Dywedodd Dr John Marek yn dilyn ei ymddiswyddiad fel Cadeirydd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ei fod wedi dychwelyd i'w swyddfa ar unwaith ble y cafodd neges i ffonio'r BBC am ei ymddiswyddiad. Gan mai cyfarfod preifat oedd hwn ac yn ei farn ef fod un ai'r Llywydd neu Mr Eirug wedi rhoi gwybod i'r BBC, gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried eithrio Mr Eirug o'r cyfarfod.<br><br>Cytunodd yr aelodau y dylent nodi sylwadau Dr Marek ond i beidio gweithredu ymhellach. |
| | |
| **1** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn deillio** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr Aelodau y bydd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Tachwedd 2006 yn cael eu cyhoeddi erbyn 21 Rhagfyr 2006. |
| | |
| 1.2 | Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol HC(2)-12-06(p1) |
| | |
| | Rhwystrau Ffordd i Stryd y Lanfa a Ffordd yr Harbwr<br><br>Nododd Nerys Evans fod swyddogion yn rhoi'r cynllun i dendr ac y byddai'r opsiynau ar gyfer ceblau sefydlog a gweithredu o bell yn cael eu hymchwilio.<br><br>Gliniaduron Ysgafn<br><br>Nododd Gwen Parry fod y mwyafrif o Aelodau wedi mynegi y byddent yn ffafrio gliniaduron ysgafn. Dywedodd y byddai angen £20,000 o arian ychwanegol i ddarparu'r gliniaduron. Gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor yn ystyried cymeradwyo'r gwariant ychwanegol. Ychwanegodd Steve O'Donoghue y gellid rheoli'r gwariant ychwanegol o fewn y gyllideb bresennol.<br><br>Cytunodd yr aelodau ar y gwariant ychwanegol.<br><br>Dywedodd Gwen Parry y byddai'r gliniaduron presennol yn cael eu hail-ddefnyddio a |

| | |
|---|---|
| | byddai hi'n ymchwilio tybed a fyddai'r Aelodau yn cael eu prynu ar gyfer eu defnydd eu hunain.<br><br>Cam gweithredu : Gwen Parry<br><br>Dyfodol y Pecyn Arddangos yn Adeilad y Lanfa<br><br>Nododd Gwen Parry y byddai papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ionawr. |
| **2** | **Eitemau i'w penderfynu** |

| | |
|---|---|
| 2.1 | Materion y Senedd |

i) Canllawiau ar gyfer Mynediad gan Ymwelwyr i Fannau dan Gyfyngiad yn Y Senedd HC(2)-12-06(p2)

Ystyriodd y Pwyllgor bapur ar ganllawiau arfaethedig ar fynediad gan ymwelwyr i fannau dan gyfyngiad yn y Senedd a'r Siambr ar ddyddiau busnes.

Ystyriodd yr Aelodau nifer o faterion yn ymwneud â mynediad ymwelwyr i'r mannau sydd dan gyfyngiad. Yr oedd rhai Aelodau'n bryderus am y nifer fawr o ymwelwyr oedd yn mynd i mewn i'r Siambr ar un adeg ac ymwelwyr yn eistedd yn seddi Aelodau yn y Siambr ac yn defnyddio'r cyfrifiaduron.

Ystyriodd y Pwyllgor y cyngor gan heddlu'r Cynulliad oedd yn awgrymu y dylai mynediad i'r mannau hyn gael eu cyfyngu ymhellach ar ddyddiau busnes i ostwng y perygl o dorri rheolau diogelwch. Nododd Paul Silk y dylai rhywfaint o ddarpariaeth fod ar gyfer seneddwyr a phobl bwysig o dramor i weld y Siambr yn ystod yr amseroedd hyn.

Cytunodd yr Aelodau ar Brotocol ar gyfer mynediad ymwelwyr â'r mannau dan gyfyngiad yn y Senedd fel y nodwyd yn y papur ac y dylid dosbarthu hwn yn eang i Aelodau a staff, ac y dylai achosion eithriadol gael eu cytuno dim ond gan y Llywydd a Chadeirydd Pwyllgor y Ty.

Cam gweithredu : Gwen Parry

ii) Cyfarwyddyd ar Ddigwyddiadau yn y Senedd HC(2)-12-06(p3)

Ystyriodd yr Aelodau'r cyfarwyddyd arfaethedig ar ddechrau codi tâl ar gyfer digwyddiadau yn y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor ar ddatblygiad pellach polisi a phroses godi tâl. Addawodd Gwen Parry adrodd ar y mater i'r Pwyllgor.

Cam gweithredu : Gwen Parry

iii) Ariannu TGCh, technoleg glywedol a gweledol a Darlledu y Senedd HC(2)-12-06(p4)

Ystyriodd Pwyllgor y Ty'r diweddaraf ar sefyllfa ariannol gyfredol ariannu TGCh, technoleg glywedol a gweledol a Darlledu'r Senedd a chais gan y Llywodraeth am lefel y cyfraniad i gostau cysylltiedig â TGCh yn y Senedd.

Cyfeiriodd Dr Marek at gofnodion yr Is grwp TGCh dyddiedig 21 Tachwedd 2006 a nododd fod y Grwp wedi mynegi ei anfodlonrwydd am y modd yr oedd y newid i'r prosiect Gwahanu TGCh wedi'i wneud. Awgrymodd Dr Marek efallai y byddai'n annoeth i'r Pwyllgor dalu'r costau a ofynnir amdanynt. Dywedodd Gwen Parry fod sylwadau Dr Marek ynglyn â'r seilwaith TGCh, sy'n fater ar wahân i gost TGCh y Senedd.

Mynegodd Dr Marek farn y dylai'r Pwyllgor gadw ei Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ac felly ostwng yr angen am gyllideb atodol.

Yn dilyn trafod ymhellach cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion yn y papur fod:

§ Y Pwyllgor yn talu cost cyfalaf TGCh y Senedd sef £3.9m a chost gerio o £89,000 o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn sydd wedi cronni /cronfa wrth gefn na ddyrannwyd,

§ Dylai swyddogion barhau i gyd-gysylltu gyda golwg ar y costau sydd heb eu talu a nodi pan fo'r materion sydd heb eu datrys wedi'u cytuno.

| | |
|---|---|
| 2.2 | Y diweddaraf ar y Seilwaith TGCh HC(2)-12-06(p5)<br><br>Rhoddwyd diweddariad i Bwyllgor y Ty ar ddatblygiadau a gysylltir â gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a materion cysylltiedig â meddalwedd.<br><br>Nododd yr Aelodau fod y Comisiwn Cysgodol, yn dilyn cael cyngor gan Merlin a Llywodraeth y Cynulliad a phapur a gyflwynodd gynnig arall, wedi argymell gohirio'r penderfyniad ar y seilwaith TGCh am rwan. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i gymryd rhan yn nhrafodaethau Llywodraeth y Cynulliad ar ddyfodol y strategaeth seilwaith TGCh ac i ymuno mewn dull gweithredu wedi'i rannu o sicrhau'r cyfleuster canolfan ddata a fyddai'n gwasanaethu mwy nag un corff sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yr oedd rhai materion a oedd angen sylw yn y tymor byr i'r tymor canolig ac amlinellodd Gwen Parry y rhain yn fyr ynghyd â rhai o'r opsiynau ar gyfer delio â hwy.<br><br>Gofynnodd Dr Marek a oedd yr Is Grwp TGCh wedi ystyried yr opsiynau. Cadarnhaodd Gwen Parry fod yr Is Grwp yn hapus.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor ar yr argymhelliad yn y papur. |
| | |
| 2.3 | Adroddiad Terfynol yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar Gyfleusterau Gofal Plant HC(2)-12-06 (p6)<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Frances Osborne, awdur yr adroddiad dichonoldeb yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd i'r cyfarfod.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniad yr astudiaeth dichonoldeb cyfleusterau gofal plant a chytunodd yr Aelodau o ran egwyddor i gefnogi darparu cyfleusterau gofal plant ar gyfer ystâd Bae Caerdydd .<br><br>Dywedodd Ms Osborne wrth baratoi'r adroddiad dichonolrwydd fod yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd wedi canfod mai:<br><br>·1 Ychydig o ddarpariaeth gofal dydd i blant sydd yn ardal Bae Caerdydd.<br><br>·2 Nad oedd unrhyw alw neu ychydig iawn o alw am feithrinfa i'w defnyddio gan ymwelwyr<br><br>·3 Ni fyddai galw gan rai sydd yn yr adeilad yn unig yn ddigonol i gynnal meithrinfa benodol y gweithle.<br><br>·4 Rhagwelir y bydd galw am ofal dydd gan |

gyflogwyr eraill a chan fusnesau sy’n datblygu yn yr ardal.

·5 Byddai’n ymarferol datblygu cyfleuster gofal plant bach ar gyfer meithrinfa gofal dydd a meithrinfa ymwelwyr mewn lle gwag yn Swyddfa’r Cynulliad neu godi cyfleuster ar gyfer meithrinfa gofal dydd a meithrinfa gyfun i ymwelwyr yn y lle gwag yn Swyddfa’r Cynulliad neu godi cyfleuster penodol i’r pwrpas, y gellir ei dynnu oddi wrth ei gilydd, ar dir yr Ystâd (y maes parcio cefn presennol) a neilltuwyd ar gyfer datblygu swyddfeydd yn y dyfodol.

Ychwanegodd Ms Osborne na fyddai’r gyn Siambr yn addas i’w defnyddio fel meithrinfa gan nad oedd ynddi olau dydd naturiol. Dywedodd y byddai lle i chwarae yn ystyriaeth bwysig gan ddefnyddwyr, ac y gellid darparu hyn neu gynnig cyfleoedd chwarae a drefnir yn yr awyr agored yn lle hynny.

Trafododd y Pwyllgor y materion ariannu yn fyr.

Penderfynodd yr Aelodau y byddent o ran egwyddor yn hoffi mynd ymlaen gyda chyfleusterau gofal dydd un pwrpas ar gyfer y Cynulliad. Gofynnwyd i Nerys Evans ddod â chynigion wedi’u costio’n gyflawn i’r Pwyllgor yn ystod y tymor nesaf.

Cam Gweithredu: Nerys Evans

| | |
|---|---|
| 2.4 | Rhaglen Cymorth i Weithwyr HC(2)-12-06(p7) |

Ystyriodd Pwyllgor y Ty ddiweddariad ar y cynnydd sy’n digwydd i gyflwyno Rhaglen Cymorth i Weithwyr, a fyddai ar gael yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd .

Nododd Aelodau’r dewis o ran darparwyr a’r ystod o wasanaethau a fyddai ar gael.

| | |
|---|---|
| 2.5 | Hawl Trosglwyddo Arian Cyllideb 2006/07 HC(2)-12-06(p8) |

Ystyriodd yr aelodau bapur ar gost cynigion y Clerc ar gyfer hawl trosglwyddo arian ar gyllideb GSC 2006/7.

Cytunodd y Pwyllgor ar gynigion hawl trosglwyddo arian y Clerc fel yr amlinellwyd hwy yn y papur.

| **3** | **Eitemau i'w nodi** |
|---|---|
| 3.1 | Gwerth Trethiannol Swyddfa'r Cynulliad, y Senedd ac Adeiladau'r Lanfa HC(2)-12-06 (p9)<br><br>Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ailasesiad o'r trethi busnes cyfunedig ar gyfer Swyddfa'r Cynulliad, Adeiladau'r Lanfa a'r Senedd.<br><br>Dywedodd Dianne Bevan ei bod hi wedi cael gwybod y byddai'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer cynnydd o ran trethi yn berffaith ddigonol.<br><br>Cymeradwyodd yr Aelodau argymhelliad yr asesiad. . |
| 3.2 | Cynhesu ac Oeri'r Senedd HC(2)-12-06(p10)<br><br>Ystyriodd yr Aelodau bapur ar y systemau cynhesu ac oeri yn y Senedd.<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Gordon Brown, oedd wedi'i gontractio i roi cyngor ac i sicrhau fod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r systemau arloesol yn y Senedd.<br><br>Rhoddodd Mr Brown wybodaeth i'r Pwyllgor am natur a nodweddion y system gynhesu ac oeri yn y Senedd.<br><br>Dywedodd Mr Brown fod yn rhaid i'r adeilad ddarparu amgylchedd gweithio cysurus ac yr oedd yn gobeithio galluogi pawb oedd yn defnyddio'r Senedd i ddeall sut mae'n gweithio. Cynigiodd deithiau unigol i Aelodau o gwmpas yr adeilad a gofynnodd hefyd am wirfoddolwyr i weithredu fel eiriolwyr ac i ddarparu adborth. Mynegodd Jane Hutt a Janice Gregory ddiddordeb i gael taith.<br><br>Gofynnodd Aelodau a oedd DVD ar gynllun technegol yr adeilad ar gael o gwbl. Dywedodd Mr Brown y dylai fod yn bosibl paratoi DVD o'r fath.<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys y papur a'r cynnydd a wnaethpwyd.<br><br>Adroddiad Adnoddau Dynol misol HC(2)-12-06(p11)<br><br>Nododd yr Aelodau'r adroddiad.<br><br>Cyfarfod yr Is Grwp Adeiladau<br><br>i) Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Hydref 2006 HC(2)-12-06(p12)<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Hydref 2006. |

Cymeradwyodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod.

ii) Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Tachwedd 2006 HC(2)-12-06(p13)

Ystyriodd y Pwyllgor gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Tachwedd 2006.

Cymeradwyodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod.

Cyfarfod yr Is Grwp TGCh

i) Is Grwp TGCh

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2006 HC(2)-12-06(p14)

Ystyriodd y Pwyllgor gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2006.

Cymeradwyodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod.

ii) Gwasanaeth Dros Dro i'r Senedd HC(2)-12-06(p15)

Ystyriodd y Pwyllgor bapur yr Is grwp TGCh ar y costau misol cyfredol sy'n deillio o'r trefniant dros dro ar gyfer cynnal a chadw offer TGCh y Senedd gan Merlin.

Cytunodd yr Aelodau i dalu'r symiau sydd heb eu talu ac i ddarparu yn y gyllideb ar gyfer yr ymrwymiad parhaus.

Adroddiad Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-12-06(p16)

3.3 Nododd yr Aelodau'r adroddiad.

Mynediad i Wybodaeth HC(2)-12-06(p17)

Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau.

3.4 Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(2)-12-06(p18)

3.5 Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau

3.6 Materion a gyfeiriwyd yn cynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

3.7 Nododd yr Aelodau fod WAQ48585 a gyflwynwyd i'w ateb ar 16 Tachwedd 2006 wedi'i ddosbarthu'n gynt.

3.8

| | |
|---|---|
| 4<br><br>4.1 | |
| **5** | **Unrhyw Fater Arall** |
| 5.1 | Cyfarfod yr Is Grwp Arlwyo 30 Tachwedd 2006<br><br>Croesawodd y Cadeirydd David Melding AC, Cadeirydd yr Is Grwp Arlwyo i'r cyfarfod.<br><br>Ystyriodd yr Aelodau gopi a ddosbarthwyd o gofnodion cyfarfod yr Is Grwp Arlwyo 30 Tachwedd 2006.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor gynigion i wneud newidiadau cyffredinol i'r cyfleusterau arlwyo. Cytunodd yr Aelodau na ddylent gymeradwyo'r cynigion fel y cyflwynwyd hwy. Gofynnwyd i Nerys Evans baratoi cynllun busnes manylach gydag opsiynau pellach a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Ionawr.<br><br>Cam Gweithredu : Nerys Evans<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y trefniadau ar gyfer ymweliadau grwpiau sy'n defnyddio'r bwyty. Cytunodd yr Aelodau y dylid caniatáu i fwyafrif o chwe ymwelydd i bob Aelod ddefnyddio un ai bwyty'r staff neu Ystafell De'r Aelodau ar amser cinio.<br><br>Cyfleusterau Parcio ym Mae Caerdydd<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor bapur a ddosbarthwyd ar gyfleusterau parcio ym Mae Caerdydd.<br><br>Nododd Aelodau y gallai maes parcio Queensgate gau neu ddarparu llai o leoedd parcio yn gynt na'r disgwyl ac nid oedd dewis arall parhaol ar gael eto.<br><br>Dywedodd Dianne Bevan, ers ysgrifennu'r papur ei bod wedi cael gwybod y byddai rhan o faes parcio Queensgate yn aros yn agored mae'n debyg er nad oedd y sefyllfa'n bendant eto. Gofynnodd i'r Pwyllgor alluogi iddi roi sylw i'r mater o fewn yr atebion posibl a amlinellwyd ar gyfer darpariaeth dros dro, ac i ystyriaeth gael ei roi i alluogi defnydd mwy hyblyg o fannau cadwedig ym maes parcio'r safle, yn arbennig yn ystod Toriad.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylai Dianne Bevan ddatrys unrhyw ofynion dros dro a chyflwyno adroddiad yn ddiweddarach ar y gweithredu a fu.<br><br>Cam Gweithredu : Dianne Bevan<br><br>Trefniadau Agor y Senedd |

| | |
|---|---|
| 5.2<br><br>5.3 | Gofynnodd Gwen Parry i'r Pwyllgor ystyried cau'r Senedd ddydd Mercher, 27 Rhagfyr gan fod hwn yn ddiwrnod gwyliau braint i staff. Yr oedd y Senedd yn cau ar ddiwrnod Nadolig a dydd San Steffan yn barod.<br><br>Cytunodd yr Aelodau i gau'r Senedd i ymwelwyr ar 27ain Rhagfyr 2006. |
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf : 18fed Ionawr 2007<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty |